**EITEM AR YR AGENDA: 5**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**2 Rhagfyr 2014**

**YMATEB I DDIGWYDDIADAU ANSTATUDOL**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r aelodau ynglŷn â goblygiadau posibl rhoi'r gorau i ymateb i ddigwyddiadau sydd y tu allan i swyddogaethau statudol yr Awdurdod Tân ac Achub.

## Cefndir

2 Mae swyddogaethau craidd Awdurdod Tân ac Achub (ATA) wedi eu nodi yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

3 Mae Adrannau 7 ac 8 o'r Ddeddf yn nodi swyddogaethau craidd o ran diffodd tanau ac ymateb i wrthdrawiadau ar y ffyrdd.

4 Mae Adran 9 o'r Ddeddf honno yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru bennu swyddogaethau craidd eraill sy'n gysylltiedig ag argyfyngau y mae'n rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud darpariaeth ar eu cyfer hefyd. Mae'r swyddogaethau craidd eraill hyn wedi eu nodi yng Ngorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) 2007.

5 Mae'r adrannau perthnasol o Ddeddf 2004 a Gorchymyn 2007 wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 er mwyn gallu troi atynt.

## Gwybodaeth

6 Ar hyn o bryd mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu adnoddau a staff hyfforddedig i ymdrin â rhai categorïau o ddigwyddiadau sydd y tu allan i'r swyddogaethau craidd a ddiffiniwyd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r digwyddiadau hyn yn cael eu talu o gyllidebau refeniw a chyfalaf yr Awdurdod.

7 Mae'r digwyddiadau sydd y tu allan i'r swyddogaethau craidd a ddiffiniwyd yn cynnwys achub o ddŵr, achub â rhaffau, ac achub anifeiliaid mawr. Tua £91,000 y flwyddyn yw'r gost refeniw i'r Awdurdod o ddarparu'r cyfarpar, yr hyfforddiant arbenigol a'r ymatebion i'r digwyddiadau hyn.

**Achub o Ddŵr**

8 Yn y blynyddoedd diweddar mae'r digwyddiadau amlwg yn y categori hwn wedi cynnwys y llifogydd eang yn Llanelwy yn 2012 ac ymchwyddiadau'r llanw yn y Rhyl a'r Bermo yn 2013/14.

9 Yn ystod y digwyddiadau hyn, ac mewn digwyddiadau hyfforddi cenedlaethol, mae'r swyddogion wedi cydweithio'n agos gyda chydweithwyr o wasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru ac asiantaethau eraill, er enghraifft Sefydliad Badau Achub yr RNLI, i ddatblygu gallu rhyngweithredol a chydnerth sy'n rhan o Gofrestr Asedau Genedlaethol.

10 Yn 2013 fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fuddsoddi £360,000 o'i gyfalaf ei hun i gael pedwar peiriant pwrpasol ar gyfer digwyddiadau dŵr. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfarpar a ddarperir i'r Gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru.

11 Mae achub o ddŵr yn cael ei wneud gan griwiau wedi eu lleoli ymhob un o'r 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru. Mae criwiau arbenigol sydd wedi cael hyfforddiant uwch wedi eu lleoli ym Mangor, Betws y Coed, Rhuthun a Glannau Dyfrdwy.

12 Yn y tabl isod ceir nifer digwyddiadau ac amcangyfrif o gostau darparu cyfarpar amddiffyn personol, cyfarpar gweithredol, hyfforddiant a chyflogau staff am fynd at ddigwyddiadau dŵr:

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y digwyddiadau dŵr yr aethpwyd atynt | Cyfanswm y digwyddiadau dŵr | Amcangyfrif o'r costau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| 2012/13 | 352 | 75 | £85,865 |
| 2013/14 | 65 | 36 | £77,520 |
| 2014/15 *(hyd yn hyn eleni)* | 44 | 20 | £75,234 |

## Achub â Rhaffau

13 Mae'r swyddogion yn ymwybodol fod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddyblygu gan ddarparwyr eraill sydd â sgiliau yn y math hwn o waith. Mae hyn yn cynnwys y timau achub mynydd lleol a thimau achub ar glogwyni Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi.

14 Mae criwiau arbenigol ar gyfer achub â rhaffau wedi eu lleoli yn ngorsaf dân Bae Colwyn yn unig.

15 Yn y tabl isod ceir nifer digwyddiadau ac amcangyfrif o gostau darparu cyfarpar amddiffyn personol, cyfarpar gweithredol, hyfforddiant a chyflogau staff am fynd at ddigwyddiadau achub â rhaffau:

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y digwyddiadau'n ymwneud ag achub â rhaffau | Amcangyfrif o'r costau cysylltiedig |
|---|---|---|
| 2012/13 | 6 | £7,664 |
| 2013/14 | 5 | £7,476 |
| 2014/15 *(hyd yn hyn eleni)* | 2 | £8,510 |

## Achub Anifeiliaid Mawr

16 Mae criwiau arbenigol ar gyfer achub anifeiliaid mawr wedi eu lleoli yng ngorsaf dân Bae Colwyn yn unig.

17 Yn y tabl isod ceir nifer digwyddiadau ac amcangyfrif o gostau darparu cyfarpar amddiffyn personol, cyfarpar gweithredol, hyfforddiant a chyflogau staff am fynd at ddigwyddiadau o'r fath:

| Blwyddyn | Cyfanswm y digwyddiadau'n ymwneud ag achub anifeiliaid mawr | Amcangyfrif o'r costau cysylltiedig |
|---|---|---|
| 2012/13 | 16 | £9,742 |
| 2013/14 | 10 | £7,901 |
| 2014/15 *(hyd yn hyn eleni)* | 2 | £7,906 |

**Y Risgiau a Ganfuwyd**

18 Mae risgiau cyffredinol yn gysylltiedig â rhoi'r gorau i achub o ddŵr, achub â rhaffau, ac achub anifeiliaid mawr, gan gynnwys:

a) Anfodlonrwydd a chyhoeddusrwydd gwael gan fod pobl wedi dod i ddisgwyl y gwasanaethau hyn gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
b) pwysau gwleidyddol;
c) her gyfreithiol a'r posibilrwydd o orfod amddiffyn rhag hawliadau yn erbyn yr Awdurdod am beidio â throi allan;
d) her gan y cyrff cynrychioliadol.

19 Yng nghyd-destun y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2015/16 dylid nodi mai bychan iawn fyddai'r arbedion ar ffurf arian parod o ganlyniad i roi'r gorau i achub â rhaffau ac achub anifeiliaid (£8k yr un), ac mai penderfyniad symbolaidd fyddai hynny yn anad dim.

20 Tua £75,000 y flwyddyn fyddai'r arbedion o ganlyniad i roi'r gorau i achub o ddŵr, ond byddai'r penderfyniad yn denu llawer mwy o feirniadaeth gan y cyhoedd ac nid yw hyn wedi bod yn rhan penodol o'r ymgynghoriad cyhoeddus presennol.

**Argymhellion**

21 Na ddylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru barhau i ymateb i ddigwyddiadau achub â rhaff ac achub anifeiliaid mawr.

22 Y dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru barhau i hyfforddi ac ymateb i ddigwyddiadau dŵr, tra bydd yn parhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu gallu partneriaid i ymgymryd â'r gwaith hwn.

**Atodiad 1**

**DEDDF Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB 2004**

**(Nodwch: Nid oes fersiwn Gymraeg o'r Ddeddf)**

**7 Fire-fighting**

(1) A fire and rescue authority must make provision for the purpose of—

(a) extinguishing fires in its area, and

(b) protecting life and property in the event of fires in its area.

(2) In making provision under subsection (1) a fire and rescue authority must in particular—

(a) secure the provision of the personnel, services and equipment necessary efficiently to meet all normal requirements;

(b) secure the provision of training for personnel;

(c) make arrangements for dealing with calls for help and for summoning personnel;

(d) make arrangements for obtaining information needed for the purpose mentioned in subsection (1);

(e) make arrangements for ensuring that reasonable steps are taken to prevent or limit damage to property resulting from action taken for the purpose mentioned in subsection (1).

**8 Road traffic accidents**

(1) A fire and rescue authority must make provision for the purpose of—

(a) rescuing people in the event of road traffic accidents in its area;

(b) protecting people from serious harm, to the extent that it considers it reasonable to do so, in the event of road traffic accidents in its area.

(2) In making provision under subsection (1) a fire and rescue authority must in particular—

(a) secure the provision of the personnel, services and equipment necessary efficiently to meet all normal requirements;

(b) secure the provision of training for personnel;

(c) make arrangements for dealing with calls for help and for summoning personnel;

(d) make arrangements for obtaining information needed for the purpose mentioned in subsection (1);

(e) make arrangements for ensuring that reasonable steps are taken to prevent or limit damage to property resulting from action taken for the purpose mentioned in subsection (1).

**9 Emergencies**

(1) The Secretary of State may by order confer on a fire and rescue authority functions relating to emergencies, other than fires and road traffic accidents in relation to which the authority has functions under section 7 or 8.

(2) An order under this section may require functions conferred on a fire and rescue authority under this section to be discharged outside the authority's area.

(3) An order under this section may make provision as to what a fire and rescue authority must or may do for the purpose of a function conferred under this section, and may in particular require or authorise a fire and rescue authority—

(a) to secure the provision of personnel, services and equipment;

(b) to secure the provision of training for personnel;

(c) to make arrangements for dealing with calls for help and for summoning personnel;

(d) to make arrangements for obtaining information needed for the purpose of discharging the function;

(e) to make arrangements for ensuring that reasonable steps are taken to prevent or limit damage to property resulting from discharging the function.

(4) An order under this section may confer a function, including a function of providing particular equipment, on a particular authority.
(5) Before making an order under this section the Secretary of State must consult any persons he considers appropriate.

**GORCHYMYN GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB (ARGYFYNGAU) (CYMRU) 2007**

**Argyfwng cemegol, biolegol, radiolegol neu niwclear**
**2**.-(1) Rhaid i awdurdod tân ac achub wneud darpariaeth yn ei ardal at ddibenion-
(a) gwaredu halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol oddi ar bobl os bydd argyfwng[1] sy'n golygu bod halogion o'r fath yn cael, neu y gallant gael, eu gollwg; a
(b) dal, am gyfnod rhesymol, unrhyw ddŵr a ddefnyddir at ddiben a grybwyllwyd yn is-baragraff (a).
(2) Wrth gymryd camau at ddiben a grybwyllwyd ym mharagraff (1), rhaid i awdurdod tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i atal niwed difrifol i'r amgylchedd neu i gyfyngu ar niwed o'r fath.

**Achub a diogelu yn achos argyfyngau penodol**
**3**.-(1) Rhaid i awdurdod tân ac achub ddarparu yn ei ardal ar gyfer achub pobl a all gael eu dal ac ar gyfer eu diogelu rhag niwed difrifol, i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny, os digwydd-
(a) argyfwng sy'n golygu bod adeilad neu adeiledd arall wedi cwympo; neu
(b) yn ddarostyngedig i baragraff (2), argyfwng sy'n dod o dan adran 58(a) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 sydd-
(i) yn ymwneud â thrên, tram neu awyren; a
(ii) yn debyg o ofyn bod awdurdod tân ac achub yn defnyddio ei adnoddau y tu hwnt i gwmpas ei weithrediadau dydd i dydd.
(2) Nid yw paragraff (1)(b) yn gymwys i ddarparu ar gyfer argyfwng i'r graddau y mae'n ymwneud â thwnnel neu gloddfa yn cwympo.
(3) Yn yr erthygl hon-
(a) nid yw "adeiledd" ("*strwythur*") yn cynnwys twnnel neu gloddfa;
(b) ystyr "twnnel" ("*tunnel*") yw tramwyfa o waith dynion;
(c) ystyr "cloddfa" ("*mine*") yw cloddfa o fewn ystyr adran 180 o Ddeddf Cloddfeydd a Chwareli 1954[2].

**Y camau y mae angen eu cymryd at ddibenion swyddogaethau a roddir drwy Orchymyn**
**4**. Wrth wneud y ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan erthygl 2 neu 3, rhaid i awdurdodau tân ac achub-
(a) sicrhau y darperir y gweithwyr, y gwasanaethau a'r hyfforddiant sy'n angenrheidiol i ateb pob gofyn rhesymol yn effeithlon;
(b) gwneud trefniadau ar gyfer delio â galwadau am gymorth;
(c) gwneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwybodaeth angenrheidiol; ac
(ch) gwneud trefniadau i sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i atal difrod sy'n deillio o gamau a gymerwyd yn unol â'r ddarpariaeth honno neu i gyfyngu ar ddifrod o'r fath.

---

[1] Mae "emergency" wedi'I ddiffinio yn adran 58 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Y diffiniad yw "an event or situation that causes or is likely to cause— (a) one or more individuals to die, be seriously injured or become seriously ill, or (b) serious harm to the environment (including the life and health of plants and animals)".
[2] 1954 p.70; OS 1993/1897 ac OS 1999/2024 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.